
Harbwr Diogel 11

Calm Waters 11



Gwybodaeth

Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

Harbwr Diogel 11

Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.



Cofiwch:

- Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
- Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
- Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
- Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
- Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
- Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
- Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
- Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
- Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol.

Am wybodaeth am Wasanaeth yr Harbyrau, ewch i: Harbyrau - Cyngor Sir Ceredigion

Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud

yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd felly dylid eu gwirio'n gyson.

Diweddariadau:

(1) Diweddariadau Tîm Gwasanaeth yr Harbyrau

Dychwelodd Chloe fel Cynorthwy-ydd Harbwr Tymhorol a mwynhaodd ei thymor gyda'r gwasanaeth yn fawr.

Y tymor hwn dechreuodd Jez Broughton gyda Gwasanaeth yr Harbyrau, ac mae wedi mwynhau ei dymor cyntaf yn fawr, bydd Jez yn parhau i weithio gyda gwasanaeth yr harbyrau trwy gydol misoedd y gaeaf tan fis Rhagfyr.

'*Yr haf hwn, rwyf wedi mwynhau'n fawr weithio fel Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol gyda Chyngor Sir Ceredigion, gan gael profiad gwerthfawr ar draws harbyrau Ceinewydd, Aberystwyth ac Aberaeron. Mae fy rôl wedi cynnwys cefnogi'r gwaith o redeg yr harbyrau o ddydd i ddydd, gweithio gyda defnyddwyr hamdden a defnyddwyr masnachol, cynnal archwiliadau diogelwch dyddiol a gwiriadau misol, a chysylltu â defnyddwyr yr harbyrau, cydweithwyr a'r nifer fawr o ymwelwyr â'r ardal. Rwyf wedi mwynhau'n fawr iawn yr amrywiaeth y mae pob dydd wedi'i chynnig, cwrdd a helpu gwahanol bobl a bod yn rhan o awyrgylch prysur yr haf ar hyd arfordir Ceredigion. Mae wedi bod yn gyfle gwych i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu, sgiliau o ran gwasanaeth i gwsmeriaid a sgiliau gweithredol, wrth weithio mewn amgylchedd mor unigryw a braf. Rwy'n hynod ddiolchgar am y profiad a'r atgofion rwyf wedi'u cael yn ystod fy amser gyda Gwasanaethau'r Harbyrau, ac rwyf eisoes yn edrych ymlaen at ddychwelyd fis Ebrill nesaf ar gyfer dechrau'r tymor nesaf.*'



Jez yn Harbwr Aberaeron

(2) Gwaith Harbwr

Mae nifer o weithiau pwysig wedi'u cwblhau ar draws yr harbyrau; mae'r rhain yn cynnwys:

Cylchoedd Angori yng Ngheinewydd

Mae gwaith i'r mannau angori yn Harbwr Ceinewydd wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae'r angorfeydd newydd yn rhoi cyfleusterau mwy diogel a chadarn ar gyfer cychod sy'n angori ym Mhenpolion a phen y pier.

Gwaith Carthu a Gwaredu Malurion

Mae gwaith carthu ar draws yr holl harbyrau yn cael ei gynllunio a'i drefnu ar hyn o bryd, cyn mis Mawrth 2027. Anogir defnyddwyr yr harbyrau i ymgysylltu ag Awdurdod yr Harbyrau ynglŷn â'r gwaith hwn ac fe'u hatgoffir i fonitro Hysbysiadau Lleol i Forwyr.

Gwaith Pontŵn Canolog Aberystwyth

Mae'r gwaith i'r pontŵn canolog yn Aberystwyth wedi'i gwblhau, ac roedd defnyddwyr yr harbwr yn gallu dychwelyd i'r pontŵn yn ystod tymor yr haf.



Pontŵn newydd yn Aberystwyth a gwaith paentio llinellau.

Paentio Llinellau Aberystwyth

Mae gwaith paentio llinellau wedi'i gwblhau yn Aberystwyth. Mae'r llinellau presennol wedi'u hail-baentio i nodi'n glir y mannau ar gyfer defnydd gan gerbydau a mynediad i gerbydau.



Llinellau wedi'u hail-baentio yn Harbwr Aberystwyth.


Rheiliau yn Aberystwyth a Cheinewydd

Mae rheiliau yn Aberystwyth wedi cael eu cynnal a'u cadw, ac mae rheiliau yng Ngheinewydd wedi cael eu newid.

Glendid Harbyrau

Cafodd gwaith ei wneud yn Aberystwyth a Cheinewydd; cafwyd gwared â gwastraff yn unol â Chynllun Rheoli Gwastraff Porthladd yr harbyrau. Bydd Gwasanaeth yr Harbyrau yn mabwysiadu dull llymach o reoli gwastraff dros y gaeaf; bydd unrhyw gasgliad anawdurdodedig o wastraff, neu eitemau sy'n cael eu storio ar dir yr harbyrau, yn cael eu trin fel achos o dipio anghyfreithlon.






Yn y drefn honno o'r chwith uchaf, gan symud yn ôl cloc: rheiliau wedi'u paentio yn Harbwr Aberystwyth, cael gwared ar sbwriel/gwastraff o Harbwr Aberystwyth, rheiliau newydd yn Ceinewydd, a phwyntiau angori newydd ym Mhenpolion, Ceinewydd.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio ar gyfer cyfnod y gaeaf gan gynnwys:

- Gosod arwyddion yn ymwneud â neidio o uchderau mawr, pobl yn cael eu hynysu gan y llanw yng Ngheinewydd ac arwyddion ar gyfer Swyddfa Harbwr Aberystwyth
- Gwaith carthu – cynllunio ar gyfer pob harbwr.
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw i sawl Cymorth Mordwyo.

(3)Cyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau

Bydd cyfarfodydd nesaf Pwyllgor Defnyddwyr yr Harbyrau yn cael eu cynnal ar **2il Tachwedd 2026** ar yr amseroedd canlynol a byddant yn cael eu cynnal yn rhithwir ar Zoom/Teams.

17:30 Aberaeron
18:15 Ceinewydd
19:00 Aberystwyth

Er bod y cyfarfodydd yn rhoi cyfle i drafod materion, mae yna lawer o ffyrdd y gall rhanddeiliaid gysylltu â Gwasanaeth yr Harbyrau, gan gynnwys yn bersonol yn yr Harbyrau neu drwy Clic, canolfan gyswllt y Cyngor: clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881.

(4) Iechyd a Diogelwch – Neidio o uchderau mawr

Cafwyd adroddiadau am bobl yn neidio i'r dŵr o uchderau mawr o fewn yr harbyrau. Mae neidio o waliau harbyrau, pierau, pontwnau neu strwythurau eraill i'r dŵr yn hynod beryglus, a chynghorir pobl yn gryf i beidio â gwneud hynny. Gall dyfnderoedd dŵr a pheryglon tanddwr amrywio, tra gall dyfroedd harbyrau gynnwys cychod sy'n symud, ceryntau cryf a risgiau eraill nad ydynt yn amlwg ar unwaith.

Gofynnir i rieni a gwarcheidwaid sicrhau bod plant a phobl ifanc yn eu gofal yn deall y risgiau hyn. Rhowch wybod am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau i staff Gwasanaeth yr Harbyrau. Mewn argyfwng, ffoniwch 999 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau.

Gwnaeth Gwasanaeth yr Harbyrau gyfarfod â'r RNLI (pryd?) i drafod y pryderon hyn ac i gytuno ar sut y gall y sefydliadau gydweithio i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau.
RNLI warns of the risks of tombstoning and the dangers of copycat behaviour | RNLI

(5) Gwasanaeth yr Harbyrau yn Gwirfoddoli i'r RNLI

Mae Robyn a Chloe yn gwneud y Cyngor a'u cymunedau yn falch drwy wirfoddoli fel aelodau criw yr RNLI, gan ddatblygu ymhellach eu sgiliau a'u gwybodaeth sy'n benodol i'r sector. Yn ddiweddar, cwblhaodd Robyn ei hyfforddiant Lefel 1, tra cwblhaodd Chloe ei chwrs Gweithdrefnau Argyfwng yng Ngholeg yr RNLI yn Poole.



Robyn a Chloe yn eu hoffer amddiffyn personol (PPE) yng Ngorsaf Badau Achub Cei Newydd

(6) Parodrwydd ar gyfer Arllwysiadau Olew

Bydd Gwasanaeth yr Harbyrau yn bwrw ymlaen â gwaith i gryfhau parodrwydd ar gyfer arllwysiadau olew ar draws harbyrau Ceredigion. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau y gall Gwasanaeth yr Harbyrau ymateb yn effeithiol i unrhyw ddigwyddiad llygredd lefel 1 (ar raddfa fach), a deall sut i symud i lefel 2 er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol.

Bydd hyn yn cynnwys adolygu gweithdrefnau ymateb, hyfforddi staff, asesu anghenion offer, a chynnal ymarferion i brofi ein trefniadau. Er bod digwyddiadau llygru sylweddol o fewn ein harbyrau yn brin, mae bod yn barod yn helpu i leihau effeithiau amgylcheddol, ac yn cefnogi diogelu ein harfordir, defnyddwyr yr harbyrau a bywyd gwyllt lleol.

Gall defnyddwyr yr harbyrau helpu drwy sicrhau bod cychod yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn, drwy drosglwyddo tanwydd yn ofalus, a thrwy roi gwybod i staff yr harbyrau am unrhyw arwyddion o lygredd cyn gynted â phosibl. Mewn argyfwng, cysylltwch â 999 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau.
Bydd diweddariadau pellach ar y gwaith hwn yn cael eu rhoi mewn rhifynnau o Harbwr Diogel yn y dyfodol.

(7)Parodrwydd y Gaeaf

Wrth i dymor y gaeaf agosáu, anogir defnyddwyr yr harbyrau i baratoi eu cychod a'u hoffer ar gyfer amodau tywydd mwy heriol.

Sicrhewch:

- Fod rhaffau angori, cadwyni, gefynnau ac offer angori i wely’r môr yn cael eu harolygu ac yn parhau mewn cyflwr da.
- Bod cychod wedi'u sicrhau'n iawn ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn enwedig ar ôl cyfnodau o wyntoedd cryfion neu law trwm.
- Bod pympiau gwaelodion cychod, batris a systemau trydanol yn cael eu cynnal a’u cadw ac yn gweithio'n gywir.
- Bod hwyliau, gorchuddion, clustogau ac offer rhydd wedi'u sicrhau er mwyn atal difrod neu golled.
- Bod manylion cyswllt sydd gan Wasanaeth yr Harbyrau yn cael eu diweddaru.

Atgoffir defnyddwyr y harbyrau sy'n cynnal gwaith cynnal a chadw yn ystod y gaeaf i wneud hynny'n ddiogel ac yn gyfrifol. Dylid bod yn ofalus wrth wneud gwaith poeth, gweithio ar uchder, defnyddio offer trydanol, neu drin tanwyddau, olewau, paentiau a sylweddau peryglus eraill.

Rhaid gwaredu deunyddiau gwastraff, gan gynnwys olew gwastraff, batris, cynwysyddion paent, crafiadau gwaelod cychod ac offer a ddefnyddiwyd, yn gyfrifol ac yn unol â gofynion amgylcheddol perthnasol a'r Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladd. Dylai defnyddwyr yr harbyrau sicrhau nad yw gweithgareddau cynnal a chadw yn achosi llygredd, rhwystr na niwsans i ddefnyddwyr eraill yr harbyrau.

Gall arolygiadau rheolaidd a gwaith cynnal a chadw ataliol, a wneir yn ystod misoedd y gaeaf, helpu i osgoi atgyweiriadau costus a sicrhau bod cychod yn barod ar gyfer dechrau'r tymor nesaf.

(8)Cymorthfeydd Harbyrau

Cynhelir cyfarfodydd drws agored ym mhob Harbwr bob mis, fel y gall defnyddwyr yr harbwr drafod unrhyw faterion neu bryderon gyda Rheolwr yr Harbwr (neu Arweinydd Gwaith yr Harbwr yn ei absenoldeb) wyneb yn wyneb. Bydd y cymhorthfeydd yn cael eu cynnal yn swyddfa pob harbwr ac eithrio misoedd Hydref, Rhagfyr a Mawrth fel a ganlyn:

- Aberystwyth- Dydd Mawrth olaf pob mis am 12:00 – 14:00
- Aberaeron – Dydd Mercher olaf pob mis 12:00 – 14:00
- Ceinewydd – Dydd Iau olaf pob mis 12:00 – 14:00

Bydd unrhyw newidiadau i'r amserlen hon yn cael eu cyfleu i Ddefnyddwyr yr Harbyrau.

(9) Cysylltu ac Adborth

Noder: Nid yw blwch e-byst y gwasanaethau technegol bellach yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n cael ei fonitro.

Os hoffech chi gysylltu â Gwasanaeth yr Harbyrau, gallwch wneud hynny drwy:

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk

Ffôn: 01545 570 881

Post: Cyngor Sir Ceredigion

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Gyda diolch gan,

Gwasanaeth yr Harbyrau

Owen Morgan AFNI HM Cert, Rheolwr yr Harbyrau


Robyn Beresford, Arweinydd Gwaith Harbwr

Chloe Roberts, Cynorthwy-ydd Harbwr Tymhorol

Jez Broughton, Cynorthwy-ydd Harbwr Tymhorol

Harbwr Diogel 11

Calm Waters 11



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion